# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **12 HYDREF 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog cyswllt:** | **Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **Rhif Cyswllt:** | **34092** |
| **Pwnc:** | **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIRWEDD LLECHI GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU** |

## Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac yn dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r CCA drafft.

### RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae angen ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos i dderbyn mewnbwn gan sefydliadau, datblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd cyn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfiol.

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ymrwymo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi eu Cynlluniau Datblygu Lleol priodol, sy'n cynnwys polisïau strategol a datblygu fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Dylai CCAau ehangu a dehongli polisïau cynllunio ac ni ddylent eu hunain, ffurfio meysydd polisi newydd. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Safle Treftadaeth y Byd, Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru, yn berthnasol i ardal sydd o fewn ffin Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri ynghyd ac Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Adroddir ar y Canllaw er mwyn derbyn sêl bendith Cabinet Gyngor Gwynedd (ar ran ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd) i ryddhau'r ddogfen am gyfnod ymgynghori cyhoeddus o chwe wythnos. Bydd Pwyllgor Cynllunio a Mynediad y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am awdurdodi'r ymgynghoriad ar ran ardal y Parc Cenedlaethol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y cyd er mwyn cael mewnbwn gan sefydliadau, datblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

**CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

## 1. Cefndir

1.1 Dynodwyd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru sy'n cynnwys chwe Cydran fel Safleoedd Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2021. Ystyrir bod Safle Treftadaeth y Byd (STyB) yn enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol ddiwydiannol a gafodd ei siapio'n ddwys gan chwarela llechi a chloddio tanddaearol ar raddfa fawr, a thrwy weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Trawsnewidiodd y diwydiant hwn amgylchedd a ffordd o fyw'r rhai a oedd yn byw ac yn gweithio ym mynyddoedd Eryri a Gwynedd.

1.2 Mae'r chwe Rhan Cydran fel a ganlyn:

- Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)
- Cydran 2: Tirwedd Mynyddig Chwarel Dinorwig
- Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle
- Cydran 4: Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin
- Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas lechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
- Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn

1.3 Mae'r mwyafrif o Safle Treftadaeth y Byd wedi'i leoli yn bennaf yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, gyda rhai o'r ardaloedd hefyd yn eistedd o fewn a gerllaw ffin Parc Cenedlaethol Eryri.

1.4 Ym mhob Cydran, mae nodweddion ffisegol sy'n ymgorffori priodweddau Gwerth Cyffredinol Eithriadol wedi'u nodi yn y Cynllun Rheoli (gweler y ddolen isod)

https://www.llechi.cymru/sites/default/files/Slate_cym_MP_210517p4.pdf

1.5 Mae gan bob Cydran ei chymeriad unigryw ei hun a chawsant eu dewis yn ôl eu graddfa (mae'r holl chwareli crair a'r ardaloedd chwarela mwyaf yn cael eu cynrychioli), am eu heffaith sylweddol ar y dirwedd, am eu cywirdeb, ac am y ffordd y maent yn enghraifft o drosglwyddo technoleg a'r trawsnewid o ddiwylliant gwledig lleiafrifol i mewn i gymdeithas ddiwydiannol fodern.

1.6 Ffocws y CCA felly yw darparu arweiniad pellach ar unrhyw gynigion o fewn, wrth ymyl ac yn effeithio ar osodiad y STyB i warchod a gwella lle bynnag y bo'r nodweddion arwyddocaol y dyfarnwyd statws Safle Treftadaeth y Byd iddynt trwy gefnogi datblygiad priodol a chynaliadwy o fewn ac yn gyfagos i'r cydrannau.

1.7 Mae'r CCA yn cynnwys pedair adran, ac amlinellir crynodeb ohonynt isod:-

(1) **ADRAN 1 - Diben –** mae'n egluro pam mae'r Canllawiau wedi'u llunio a sut maent yn cefnogi'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

(2) **ADRAN 2 – Safle Treftadaeth y Byd –** mae'n diffinio Safle Treftadaeth y Byd ac yn disgrifio'r ardal sydd wedi'i harysgrifio yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'n nodi bod chwe Darn Cydrannol ar wahân yn yr ardal ac fe'u dangosir ar fapiau yn Atodiad 1 o'r CCA ynghyd â gwybodaeth bellach am hanes, Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a phriodoleddau ffisegol a chymdeithasol y Safle Treftadaeth.

(3) **ADRAN 3 – Polisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol –** yma cyflwynir cefndir y polisi cynllunio sy'n berthnasol i lywio datblygiadau newydd yn y Safle Treftadaeth neu ei leoliad creiddiol. Mae'r polisïau cynllunio lleol perthnasol i'w gweld yn Atodiad 2 o'r CCA.

(4) **ADRAN 4 – Cyflwyno Bwriadau Datblygu –** yma rhoddir arweiniad ar ba faterion sy'n bwysig wrth lunio datblygiadau newydd a sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ceir cyfeiriad yn Atodiad 3 o'r CCA at fathau penodol bwriadau datblygu a allai gael eu cyflwyno.

1.8 Gweler copi o'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft yn atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 2. Y broses ar hyn o bryd

2.1 Am dros ddegawd, mae Cyngor Gwynedd wedi arwain ar y prosiect i sicrhau statws 'Safle Treftadaeth y Byd' Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i amddiffyn a hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardaloedd hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth i'r broses esblygu daeth yn amlwg y byddai angen polisi o fewn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Chynllun Datblygu Lleol Eryri i amddiffyn y dirwedd lechi tra roedd y gwaith i sicrhau statws STyB yn mynd yn ei flaen. O ganlyniad i'r polisi hwn, cynhwyswyd polisïau i amddiffyn a gwella'r 'Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisydd' (ar y pryd) ym mholisïau'r CDLl. Ers ei arysgrif fel STyB, mae amddiffyn a gwella'r tirweddau dynodedig yn parhau i gael eu gwarchod gan bolisïau o fewn y CDLlau. Mae'r CCA yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi'r polisïau Cynllun Datblygu Lleol hyn.

2.2 Mae Swyddogion Polisi Cyngor Gwynedd, a Swyddogion Polisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i baratoi'r CCA ers haf 2019 ac wedi derbyn mewnbwn helaeth gan randdeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol, Perchnogion Tir a Busnes.

## 3. Camau Nesaf

3.1 Yn dilyn unrhyw welliannau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a Chyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd, cynigir y bydd CCA Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE a Chyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd cyn argymell mabwysiadu'r CCA yn ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. Amlinellir amserlen dangosol isod:-

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE | Hydref 20fed |
| Cynnal Ymgynghoriad 6 wythnos | Mor fuan ag sydd bosib yn dilyn Pwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE Tachwedd - Rhagfyr 2021 |
| Dadansoddi sylwadau ac ymatebion | Rhagfyr - Ionawr 2022 |
| Yn dilyn unrhyw newidiadau angenrheidiol, cynnig i fabwysiadu'r CCA yn ffurfiol yng Nghyfarfod y Cabinet | Cychwyn 2022 |

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:** Mae'n rhan o drefniadau ar y cyd gyda Cyngor Môn fod Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn berthnasol i Wynedd yn unig yn cael eu hystyried a mabwysiadu gan y Cabinet yn hytrach na'r Cyd Bwyllgor Cynllun Datblygu leol ar y Cyd. Mae'r argymhelliad i gynnal ymgynghoriad yn briodol ynghyd a gweithredu ar y cyd gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Y Pennaeth Cyllid:** Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1** Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru